

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

DYDD MERCHER, 22 TACHWEDD 2023

Yn Cynghorydd Michael(Cadeirydd)
bressenol:
Cynghorwyr Gunter a/ac Lancaster

1 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

2 : CAIS AM NEWID TRWYDDED SAFLE – THE BIRCHGROVE INN

Yn bresennol:

Ymgeiswyr: Michelle Hazelwood, John Gaunt Solicitors
Victoria Small, Rheolwr Ardal, Marsdons Brewery

Pobl Eraill â Diddordeb: Y Cynghorydd Graham Hinchey, Aelod Ward

Y Cais

Derbyniwyd cais i amrywio Trwydded Safle gan Marston's PLC mewn perthynas â The Birchgrove Inn, Heol Caerffili, Llwynbedw, Caerdydd.

Mae'r ymgeisydd wedi gwneud cais am y canlynol:

(1) Disgrifiad o natur yr amrywiad (fel y nodwyd gan yr ymgeisydd):

"Yn 2022 gwnaed cais i adnewyddu'r safle yn sylweddol ac i ddiweddarau'r amodau ar y Drwydded.

Yn ystod y cais hwnnw cynhaliwyd ymgynghoriad manwl gyda Heddlu De Cymru a chyflawnwyd cytundeb ynghylch oriau gweithredu'r ardaloedd allanol ac y dylai'r ardal o flaen a'r tu ôl i'r safle weithredu yn ôl gwahanol amseroedd. Ni ddarluniwyd y cytundeb hwnnw'n gywir o fewn yr amodau a gynigiwyd i'r Is-bwyllgor Trwyddedu ac a roddwyd ar y Drwydded. Felly, gwneir cais i ddiwygio amod 6 Atodiad 2 fel a ganlyn:

Bydd yr ardal yfed allanol y tu ôl i'r safle (hen ardd ac iard gwrw) ar gau o 23:00 o'r gloch er mwyn atal aflonyddwch afresymol i breswylwyr yr eiddo cyfagos.

Dylid ychwanegu amod ychwanegol at Atodiad 2 fel a ganlyn:

Bydd yr ardal yfed allanol o flaen y safle sy'n wynebu Heol Caerffili ar gau o ganol nos.

Ni cheisir unrhyw newidiadau pellach mewn perthynas â'r Drwydded".

Rhodddwyd gwybod i'r Aelodau fod yr ymgeiswyr wedi dod i gytundeb gyda Rheoli Llygredd mewn perthynas â gweithredu Cynllun Rheoli yn nodi sut y byddai'r ardal allanol o flaen y safle yn cael ei monitro a'i rheoli. Roedd Rheoli Llygredd felly wedi cytuno i dynnu eu gwrthwynebiad i'r cais yn ôl.

Sylwadau'r Ymgeiswyr

Cyflwynodd Michelle Hazelwood y cais ar ran yr ymgeiswyr. Rhodddwyd gwybod i'r Aelodau fod y cais yn gyfyngedig ac yn ceisio ymestyn yr oriau a ganiateir ar gyfer gweithredu yn yr ardal allanol o flaen y safle.

Yn dilyn gwaith adnewyddu blaenorol ar y safle, gwnaed cais mewn perthynas â'r ardaloedd allanol, a gafodd ei gymeradwyo wedyn. Ar adeg y cais hwnnw cynhaliwyd ymgynghoriad helaeth gyda Heddlu De Cymru a chytunwyd ar nifer o amodau. Rhagwelwyd y byddai amod newydd yn caniatáu defnyddio'r ardal allanol y tu ôl i'r safle tan 2300 yn gwahaniaethu rhwng yr ardaloedd allanol o flaen a'r tu ôl i'r safle. Fodd bynnag, nid oedd yr amod yn adlewyrchu'n gywir y cytundeb y daethpwyd iddo rhwng yr ymgeiswyr a Heddlu De Cymru ac a gymeradwywyd gan yr Is-bwyllgor Trwyddedu.

Dywedodd Michelle Hazelwood fod defnyddio'r ardal allanol o flaen y safle wedi'i ganiatáu tan 2330 yn hanesyddol. Roedd yr ardal wedi parhau i gael ei defnyddio tan 2330 ond mae hyn bellach yn gyfystyr â thorri'r drwydded.

Gofynnwyd i'r Aelodau nodi nad oedd Heddlu De Cymru wedi cyflwyno unrhyw sylwadau ynglŷn â'r cais. Yn dilyn gwrthwynebiad gan Rheoli Llygredd, cytunwyd y byddai Cynllun Rheoli yn nodi'r gwaith o fonitro, goruchwyllo, cau a chlirio'r ardal dan sylw yn cael ei fabwysiadu. Rhodddwyd gwybod i'r Aelodau, mewn perthynas â'r sylwadau ysgrifenedig a dderbyniwyd gan Rheoli Llygredd, fod 4 o'r cwynion a restrwyd cyn mis Gorffennaf 2022 pan roddwyd y cais blaenorol. Mae 1 gŵyn wedi bod yn y 15 mis ers hynny, ac er gwaethaf ymdrechion i gysylltu â'r achwynydd, nid yw rheolwyr y safle wedi gallu cadarnhau sail y gŵyn.

Clywodd yr Is-bwyllgor na fyddai unrhyw blant ar y safle y tu hwnt i 2300 ac felly ni fyddai'r amrywiad hwn yn effeithio ar yr amcan amddiffyn plant rhag niwed. Roedd y safle bellach yn fwy addas i deuluoedd ac yn ceisio ymgysylltu ymhellach â'r gymuned. Roedd y landlord newydd yn aelod o'r tîm rheoli blaenorol ac roedd ymdrechion i feithrin cysylltiadau cymunedol gwell yn gwneud cynnydd.

Roedd Michelle Hazelwood o'r farn nad oedd tystiolaeth wedi ei chyflwyno i awgrymu bod defnyddio'r ardal allanol o flaen y safle yn tanseilio'r amcanion trwyddedu.

Gan ymateb i gwestiwn gan yr Is-bwyllgor, dywedodd Victoria Small fod nifer o safleoedd trwyddedig yng nghyffiniau'r safle gan gynnwys safleoedd bwyd tecawê a bwytai sy'n gweithredu y tu hwnt i 2330. Rhodddwyd gwybod i'r Aelodau fod y Rheolwr Ardal hefyd wedi cyfarfod ag aelodau o staff y safle er mwyn rhoi cyfarwyddiadau iddynt o ran sut y byddai'r Cynllun Rheoli newydd yn cael ei weithredu.

Sylwadau Unigolyn Arall

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Hinchey i siarad gerbron yr Is-bwyllgor. Dywedodd y Cynghorydd Hinchey fod y safle yn dafarn boblogaidd, wedi'i rhedeg yn dda, dan y drefn reoli flaenorol. Fodd bynnag, yn ei farn ef, mae safon y gwaith o reoli'r safle wedi dirywio dros y misoedd diwethaf. Roedd y Cynghorydd Hinchey hefyd o'r farn y dylai'r Cynllun Rheoli y cytunwyd arno gyda Rheoli Llygredd fod wedi bod ar waith eisoes.

Rhodddwyd gwybod i'r Aelodau fod y Cynghorydd Hinchey wedi mynegi pryderon yn bersonol ynglŷn â materion yn y safle gyda'r rheolwyr newydd. Roedd hefyd wedi cwrdd â Heddlu De Cymru ac wedi derbyn nifer o e-byst ynglŷn â'r safle, ac mae'n ymddangos bod ardal y bar yn arbennig o broblemus.

Gan ymateb i bwyntiau a godwyd, dywedodd Michelle Hazelwood nad oes adroddiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol na galwadau i Heddlu De Cymru fynychu'r safle wedi bod. Derbyniwyd y pwynt a godwyd ynghylch y cynllun rheoli.

I Grynhoi

Dywedodd Michelle Hazelwood fod y cais yn gyfyngedig ac yn ceisio adfer yr hyn a ganiatawyd yn flaenorol. Gwahoddwyd yr Aelodau i ystyried paragraffau 9.4, 9.44 a 10.10 Canllaw Adran 182 a chymeradwyo'r cais.

PENDERFYNWYD - Wedi ystyried yr holl wybodaeth, ac yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003, Canllaw Adran 182 a Datganiad Polisi Trwyddedu'r Awdurdod Trwyddedu, bod yr is-bwyllgor yn CYMERADWYO y cais.

3 : CAIS AM DRWYDDED SAFLE - BODEGA, CLEARWATER WAY

Yn bresennol:

Ni fynychodd yr ymgeisydd.

Ni fynychodd unrhyw bobl eraill â diddordeb.

Y Cais

Derbyniwyd cais am Drwydded Safle gan Bodega (Lakeside) Ltd mewn perthynas â Bodega, Uned 3, Amber Vista, Clearwater Way, Cyncoed, Caerdydd.

Mae'r ymgeisydd wedi gwneud cais am y canlynol:

(1) Mewn perthynas â'r gweithgareddau trwyddedadwy canlynol:

(i) Manwerthu alcohol i'w yfed ar y safle ac oddi arno.

(ii) Darparu lluniaeth gyda'r hwyrnos (dan do ac awyr agored).

(1) Disgrifiad o'r Safle (fel y nodwyd gan yr ymgeisydd):

"Safle A3 llawr gwaelod sy'n rhan o floc preswyl/masnachol defnydd cymysg. Tua 32 o ganopiâu da mewnol ynghyd â 36 o ganopiâu da allanol wedi'u lleoli o fewn datblygiad muriog. Safle wedi'i leoli yn ardal Lakeside rhwng Heol Cyncoed a Llyn Parc y Rhath. Gofynnir am drwydded i werthu alcohol ar y safle ac oddi arno".

- (2) Oni bai y nodir fel arall, gall y safle fod ar agor i'r cyhoedd yn ystod yr oriau canlynol ac am unrhyw oriau sy'n codi yn sgil yr amseroedd ansafonol.

Dydd Llun i Ddydd Sul 09:00 i 22:30
Nos Galan: 09:00 i 01:00

- (4) Darparu gweithgareddau trwyddedadwy yn ystod yr oriau canlynol:

(i) Manwerthu alcohol i'w yfed ar y safle ac oddi arno:

Dydd Llun i Ddydd Sul 12:00 i 22:30
Nos Galan: 12:00 i 01:00

(ii) Darparu lluniaeth gyda'r hwyrnos (dan do ac awyr agored):

Nos Galan: 23:00 i 01:00

Nodwyd nad oedd yr ymgeisydd na'r gwrthwynebydd yn bresennol yn ystod y cyfarfod. Felly, cyflwynodd y Rheolwr Trwyddedu y cais. Mynegodd Aelod bryderon am y ffaith nad oedd yr ymgeisydd yn bresennol yn y gwrandawriad i gyflwyno ei gais ac i ymateb i bryderon neu faterion oedd gan yr Aelod mewn perthynas â'r sylwadau ysgrifenedig a dderbyniwyd gan breswlydd lleol. Roedd yr Aelod o'r farn felly, gan nad oedd yr ymgeisydd yno i ymateb, fod ei bryderon yn parhau ac na allai gefnogi'r cais.

PENDERFYNWYD - Wedi ystyried yr holl wybodaeth, ac yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003, Canllaw Adran 182 a Datganiad Polisi Trwyddedu'r Awdurdod Trwyddedu, bod yr is-bwyllgor yn CYMERADWYO y cais.

4 : EITEMAU BRYD (OS OES RHAI)

Dim eitemau bryd

Daeth y cyfarfod i ben am 11.00 am